

# Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory – blwyddyn academaidd 2019/20

Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory – blwyddyn academaidd  
2019/20

Nodiadau canllaw ar gyfer hawlwyr a darparwyr Addysg Gychwynnol  
Athrawon (AGA)

## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 204/2019  
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

# Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory – blwyddyn academiaidd 2019/20

## Cynulleidfa

Myfyrwyr sy'n cychwyn ar raglen AGA ôl-radd uwchradd ym mis Medi 2019 - i'w galluogi i addysgu drwy'r Gymraeg – a darparwyr addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth am gymhellion iaith Athrawon Yfory. Mae'n amlinellu'r cyllid sydd ar gael, pwy sy'n gymwys a sut y gwneir y taliadau. Mae'r cynllun cymhelliant yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050, cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Camau i'w cymryd

Bydd gofyn i unigolion cymwys gyflwyno ffurflenni priodol yn unol â'r canllawiau hyn.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Tîm Addysg Gychwynnol Athrawon  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [ITEIncentives@llyw.cymru](mailto:ITEIncentives@llyw.cymru)



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru/addysgasgiliau](http://llyw.cymru/addysgasgiliau)

# Cynnwys

<b>Crynodeb</b>	<b>2</b>
<b>1. Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2019/20 – trosolwg</b>	<b>3</b>
<b>2. Grantiau hyfforddi</b>	<b>4</b>
Pwy sy'n gymwys i gael grantiau hyfforddi	4
Pa grantiau y dylid eu talu	5
Pryd y dylid gwneud y taliadau	5
Sut y dylid talu'r grantiau hyfforddi	5
Dull gwneud taliadau	6
Adennill grantiau a dalwyd	6
Gwybodaeth	7
<b>3. Cwestiynau cyffredin</b>	<b>8</b>
Grantiau hyfforddi yng Nghymru	8
<b>Atodiad A: Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory 2019 – Addysg Cymru 2019 Rhif 09</b>	<b>10</b>
<b>Atodiad B: Amserlen y broses a thaliadau</b>	<b>15</b>
<b>Atodiad C: Hysbysiad Preifatrwydd</b>	<b>16</b>

## Crynodeb

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer hyrwyddo'r gwaith o recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu.

Ar 8 Mai 2019, aeth Gweinidogion Cymru ati i arfer eu bwerau i lunio Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory 2019 (2019 Rhif 09 ("y Cynllun"). Mae copi o'r Cynllun ynghlwm yn yr atodiad i'r nodyn canllaw hwn yn Atodiad A. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau i fyfyrwyr AGA ôl-radd uwchradd, sy'n astudio eu rhaglen drwy'r Gymraeg neu'n hyfforddi i addysgu Gymraeg fel pwnc.

Mae Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yn cefnogi strategaeth Gymraeg 2050, uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer athrawon Gymraeg a tharged o filiwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.

Cyfeirir at y canllawiau hyn ym mharagraff 3 y Cynllun, a'u nod yw helpu unrhyw un sy'n gweinyddu'r Cynllun a'r rheini sy'n gwneud cais am grant. Mae'r canllawiau yn berthnasol i fyfyrwyr ôl-radd yng Nghymru sydd, rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020, yn dechrau ar raglen AGA ôl-raddedig uwchradd a fydd yn eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc a fydd yn arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC). Rhaid i'r rhaglen AGA gael ei hachredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg.

Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi'r canllawiau hyn ac maent yn rhoi gwybodaeth am gymhellion iaith Athrawon Yfory. Maent yn amlinellu'r ffynonellau cyllid sydd ar gael, y meini prawf cymhwysedd a sut y caiff y taliadau eu gwneud. Nid yw'r canllawiau eu hunain yn sefydlu pa gyllid sydd ar gael, pwy sy'n gymwys nac amodau eraill y grant - mae hynny wedi'i nodi yn y Cynllun a dylid darllen hwnnw ochr yn ochr â'r canllawiau hyn er mwyn bod yn sicr o fanylion y grant sydd ar gael.

# **1. Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2019/20 – trosolwg**

1.1 Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg byr o Gynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yng Nghymru ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020. Nid yw'n rhoi sylw i bob elfen; mae gwybodaeth gyflawn am faterion cymhwysedd a'r amodau yn yr adrannau isod.

1.2 Mae Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yn cynnwys grantiau sy'n cymhell unigolion cymwys i gwblhau rhaglen AGA ôl-radd uwchradd yng Nghymru sy'n eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ("grantiau hyfforddi"). Rhaid i'r cwrs fod yn un sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC), dechrau rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020, a chael ei achredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg.

1.3 Mae'r grantiau hyfforddi ar gyfer cyrsiau AGA ôl-radd yng Nghymru sy'n dechrau rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020 fel a ganlyn:-

- (i) £2,500 ar gyfer unigolion cymwys sy'n cwblhau rhaglen AGA ôl-radd uwchradd gymwys yng Nghymru sy'n arwain at SAC;
- (ii) £2,500 ar gyfer unigolion cymwys sy'n cwblhau eu cyfnod sefydlu'n llwyddiannus mewn ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog neu'n addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

1.4 Ni thelir grant i unigolyn oni bai ei fod wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru, dan ofal Llywodraeth Cymru, ar fformat a gymeradwywyd. Rhaid i'w darparwyr AGA ofyn i unigolion cymwys lenwi'r ffurflenni perthnasol.

## 2. Grantiau hyfforddi

### Pwy sy'n gymwys i gael grantiau hyfforddi

2.1 Mae'r grantiau hyfforddi ar gael i unigolion cymwys sy'n dechrau ar raglenni AGA ôl-radd uwchradd yng Nghymru rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020<sup>1</sup>. Rhaid i'r cyrsiau fod yn rhai sy'n arwain at SAC a chael eu hachredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r grantiau hyfforddi ar gael ar gyfer cyrsiau llawnamser a rhan-amser.

2.2 Yn ôl eu disgrisiwn, gall Gweinidogion Cymru benderfynu peidio â thalu grant hyfforddi i unigolion sydd wedi'u derbyn ar raglen gymwys Gymraeg, os yw'r targed niferoedd ar gyfer y cwrs hwnnw, ar sail hysbysiad gan Gyngor y Gweithlu Addysg, wedi'i gyrraedd. Dylai'r myfyrwyr ofyn i'w darparwr gadarnhau na fydd hyn yn digwydd iddyn nhw.

2.3 I fod yn gymwys am grant hyfforddi, rhaid i unigolyn:-

- (a) fod wedi dilyn rhaglen gymwys yng Nghymru a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020. Rhaglen gymwys yw rhaglen sy'n arwain at statws SAC sy'n galluogi'r person cymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc;
- (b) bod yn fyfyrwr cymwys;
- (c) bod heb gymhwyso fel athro neu athrawes eisoes;
- (d) peidio â bod wedi'i gyflogi i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro;
- (e) peidio â bod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth;
- (f) cwblhau rhaglen gymwys yn llwyddiannus ac ennill SAC yn unol â Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) sydd mewn grym ar y pryd; ac
- (g) o fewn tair blynedd, ar ôl ennill SAC, bod wedi cwblhau'n llwyddiannus ei gyfnod sefydlu yn un o'r lleoliadau sefydlu canlynol: ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir, neu'n addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015.

---

<sup>1</sup> Os oedd yn ofyniad gan bartneriaeth AGA bod y myfyrwyr yn mynychu ysgol cyn i'r AGA ddechrau'n ffurfiol, cyn belled â bod y cwrs yn dechrau'n ffurfiol ar ôl 31 Awst 2018, ni fyddai hynny yn eu gwneud yn anghymwys i gael y grant hyfforddi.

## Pa grantiau y dylid eu talu

2.4 I fod yn gymwys i gael y grant hyfforddi o hyd at £5,000, rhaid i unigolyn fod yn dilyn hyfforddiant ar raglen AGA ôl-radd uwchradd a ddechreuodd rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020. Caiff y grant hyfforddi o £5,000 ei dalu mewn dwy ran i'r unigolion cymwys.

- (a) Caiff y taliad cyntaf o £2,500 ei roi pan gwblheir yn llwyddiannus raglen AGA ôl-radd uwchradd gymwys yng Nghymru sy'n arwain at SAC. Bydd y rhaglen yn galluogi'r unigolyn cymwys i addysgu drwy'r Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc.
- (b) Caiff yr ail daliad o £2,500 ei roi pan fydd unigolyn yn cwblhau'n llwyddiannus ei gyfnod sefydlu mewn ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir neu'n addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

2.5 Ni fydd gan unigolion sy'n gymwys i gael grant hyfforddi ac sy'n gadael cwrs AGA ôl-radd cyn ei gwblhau hawl i unrhyw grant.

2.6 Caiff grantiau hyfforddi ar gyfer myfyrwyr sy'n ailgydio mewn cwrs, neu sy'n dechrau cwrs ar ôl ei ohirio, hefyd eu talu mewn dwy ran (gweler para 2.4).

## Pryd y dylid gwneud y taliadau

2.7 Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y ddau daliad i unigolion cymwys pan dderbynnir ffurflenni cais ar yr adegau priodol.

2.8 I hawlio'r grant hyfforddi, rhaid i unigolion cymwys:-

- (a) o fewn blwyddyn i ennill SAC, gyflwyno'r ffurflen hawlio berthnasol yn ddiogel ac yn electronig i Lywodraeth Cymru; ac
- (b) o fewn blwyddyn i gwblhau'n llwyddiannus eu cyfnod sefydlu (gweler 2.4), gyflwyno'r ffurflen hawlio berthnasol yn electronig i Lywodraeth Cymru. Dylid anfon y ffurflen hawlio hon i Lywodraeth Cymru o gyfrif e-bost diogel gan yr ysgol lle cafodd y cyfnod sefydlu ei gwblhau.

2.9 Os bydd myfyriwr wedi bod yn absennol am gyfnod hir oherwydd salwch neu os bydd wedi rhoi'r gorau dros dro i'w astudiaethau, ond yn ailgydio yn ei gwrs i wneud iawn am yr amser y mae wedi'i golli, bydd yn gymwys i gael cyllid ar ôl cwblhau cwrs cymwys ac ar gwblhau'n llwyddiannus ei gyfnod sefydlu (fel y nodwyd ym mharagraff 2.4). Dim ond os na ohirwyd eu cwrs am fwy na blwyddyn academiaidd y bydd hawlwr yn parhau i fod yn gymwys am y grant hyfforddi. Gweler darpariaethau paragraff 2.11.

## Sut y dylid talu'r grantiau hyfforddi

2.10 Bydd unigolion cymwys yn derbyn taliadau grant hyfforddi gan Lywodraeth Cymru. Gwneir y taliadau pan dderbynnir y ffurflenni cais wedi'u cwblhau'n briodol. Bydd angen i unigolion cymwys hefyd gyflwyno ffurflen manylion gwerthwr i Lywodraeth Cymru erbyn **31 Mawrth 2020** er mwyn gallu talu'n brydlon ar dderbyn yr hawliad cyntaf. Yr unigolion eu hunain fydd yn gyfrifol am ofyn i Lywodraeth Cymru am ffurflen manylion gwerthwr.

2.11 Telir y rhan gyntaf pan gwblheir rhaglen AGA ôl-radd uwchradd berthnasol yng Nghymru sy'n arwain at SAC. Bydd yn ofynnol i'r unigolion cymwys gyflwyno ffurflen hawlio i Lywodraeth Cymru o fewn blwyddyn i ennill SAC. Telir yr ail ran pan fydd unigolyn wedi cwblhau'n llwyddiannus ei gyfnod sefydlu mewn ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir, neu'n addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru. Bydd yn ofynnol i unigolion cymwys gyflwyno ffurflen hawlio i Lywodraeth Cymru o fewn blwyddyn i gwblhau'n llwyddiannus eu cyfnod sefydlu.

2.12 Bydd gofyn i ddarparwyr AGA lofnodi datganiad ar y ffurflen hawlio gyntaf i gadarnhau bod yr unigolyn wedi dilyn rhaglen AGA ôl-radd uwchradd yn ystod blwyddyn academaidd 2019-20 ac wedi ennill SAC i'w alluogi i addysgu drwy'r Gymraeg neu i addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am restr o lofnodwyr awdurdodedig gan bob darparwr AGA erbyn **1 Mehefin 2020**, i sicrhau bod ffurflenni yn cael eu llofnodi'n briodol.

2.13 Bydd yn ofynnol i benaethiaid, dirprwy benaethiaid neu benaethiaid adrannau lofnodi datganiad ar yr ail ffurflen hawlio i gadarnhau bod yr athro dan sylw wedi cwblhau'n llwyddiannus ei gyfnod sefydlu mewn ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir, neu'n addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru. Rhaid i'r ysgol gyflwyno'r ffurflen hawlio yn ddiogel drwy e-bost i Lywodraeth Cymru, ar ran yr hawlydd.

2.14 **Pwysig:** Bydd angen i'r unigolion cymwys gysylltu â'r blwch negeseuon e-bost [ITEIncentives@llyw.cymru](mailto:ITEIncentives@llyw.cymru) i ofyn am ffurflen manylion gwerthwr a ffurflenni cais. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn rhoi fersiynau electronig o'r ffurflenni. Bydd yn rhaid i'r unigolion cymwys gadw eu ffurflenni er mwyn hawlio dwy ran y grant hyfforddi.

## **Dull gwneud taliadau**

2.15 Bydd yr unigolion cymwys yn derbyn y grant hyfforddi gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i'r unigolion cymwys gysylltu â'r blwch negeseuon e-bost yn 2.14 i ofyn am ffurflen manylion gwerthwr a ffurflenni cais gan Lywodraeth Cymru. Caiff y taliad ei wneud yn uniongyrchol i gyfrif banc yr unigolyn cymwys unwaith y derbynnir y ffurflenni a fydd wedi'u llenwi'n briodol.

2.16 Rhaid i'r ffurflen hawlio gyntaf (i'w chwblhau pan ddyfernir SAC) gael ei llofnodi gan lofnodwr awdurdodedig o'r darparwr AGA, a rhaid i'r ail ffurflen hawlio (i'w chwblhau pan gwblheir yn llwyddiannus gyfnod sefydlu) gael ei llofnodi gan yr ysgol briodol.

2.17 Dylid cyflwyno pob ffurflen drwy e-bost yn ddiogel i flwch negeseuon e-bost Lywodraeth Cymru (paragraff 2.1).

## **Adennill grantiau a dalwyd**

2.18 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i adennill grantiau a dalwyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Yn ôl eu disgresiwn, gallant arfer y pwerau hynny, a byddant yn ystyried pob achos ar sail ei deilyngdod ei hun.

2.19 Efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn arfer y pwerau hyn lle:-



- (a) bydd derbynnydd y grant, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol; neu
- (b) bydd tystiolaeth gadarn nad oedd derbynnydd y grant erioed yn bwriadu cwblhau'r cwrs neu, ar ôl ei gwblhau, fynd i addysgu.

## **Gwybodaeth**

2.20 Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (yr "FOIA"), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (yr "EIR") a Deddf Diogelu Data 2018 (y "DPA").

2.21 Rydych yn cydnabod mai ni, yn ôl ein disgresiwn absoliwt, sy'n gyfrifol am benderfynu:

- (i) a ddylid datgelu unrhyw wybodaeth a gawsom o dan neu mewn cysylltiad â'r Cyllid, i'r graddau y mae'n ofynnol ein bod yn datgelu'r cyfryw wybodaeth i berson sy'n gwneud cais am ddatgeliad o dan yr FOIA neu'r EIR; a/neu
- (ii) a yw unrhyw wybodaeth yn esempt o'r gofynion datgelu o dan yr FOIA neu'r EIR.

### **3. Cwestiynau cyffredin**

#### **Grantiau hyfforddi yng Nghymru**

##### **Beth yw cyfanswm gwerth y grant hyfforddi hwn?**

3.1 Mae hyd at £5,000 ar gael o dan Gynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory.

##### **Ydy'r grant hyfforddi yn drethadwy?**

3.2 Yn ôl yr hyn a ddeallwn ni, nid yw'r grant hyfforddi yn drethadwy. Fodd bynnag, dylai'r hawlwyd siarad â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gael cyngor am eu sefyllfa unigol nhw.

##### **Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar y ffynonellau cymorth eraill i fyfyrwyr?**

3.3 I fyfyrwyr sydd am gael cyllid myfyrwyr ar sail incwm aelwyd, ni chaiff grant hyfforddi ei ystyried fel rhan o'ch incwm, ac ni ddylid ei gynnwys wrth gyfrifo incwm trethadwy na enillir.

##### **Beth fydd effaith y grant hyfforddi ar fudd-daliadau?**

3.4 Nid oes rheolau pendant ynghylch hyn - bydd yn dibynnu ar y math o incwm sy'n cael ei ystyried yn achos pob budd-dal unigol. Gall yr Adran Gwaith a Phensiynau roi mwy o gyngor ichi.

##### **A fydd y grant hyfforddi yn golygu y bydd yn rhaid ichi ddechrau ad-dalu eich benthyciad?**

3.5 Fel yn achos unrhyw swydd arall, mae'n bosibl y bydd dechrau ennill cyflog fel athro yn golygu y bydd yn rhaid ichi ddechrau ad-dalu eich benthyciad.

##### **Sut caiff y grant hyfforddi ei dalu?**

3.6 Cyn belled â bod yr holl feini prawf cymhwysedd perthnasol wedi'u bodloni, caiff y grant ei dalu mewn dwy ran yn uniongyrchol o Lywodraeth Cymru i gyfrif banc yr hawlydd. Byddant yn daliadau unigol wedi'u cymryd o daliadau cyflog rheolaidd.

##### **Ydy'r grantiau hyfforddi yn bensiynadwy?**

3.7 Nac ydyn

##### **Ydy athrawon yn gymwys i gael y grant hyfforddi os yw eu swydd addysgu, wrth gwblhau eu cyfnod sefydlu, mewn ysgol annibynnol, coleg chweched dosbarth neu Sefydliad Addysg Bellach?**

3.8 Nac ydyn. At ddibenion hawlio'r grant hyfforddi, rhaid i'r hawlydd fod wedi cwblhau ei gyfnod sefydlu mewn ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir neu drwy addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

##### **Enillais Statws Athro Cymwysedig drwy ddilyn llwybr ar sail cyflogaeth - ydw i'n gymwys i gael y grant hyfforddi?**

3.9 Nac ydych. Nid yw athrawon sy'n ennill Statws Athro Cymwysedig drwy ddilyn llwybrau ar sail cyflogaeth yn gymwys i gael y grant hyfforddi.

# Atodiad A: Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory 2019 – Addysg Cymru 2019 Rhif 09

## TROSOLWG

Mae CYNLLUN CYMHELLIANT IAITH ATHRAWON YFORY 2019 yn cynnig cymhelliant ariannol i fyfyrwyr Addysg Gychwynol Athrawon (AGA) sydd yn cychwyn rhaglen AGA ôl-raddedig uwchradd ym mis Medi 2019 a fydd yn eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu i addysgu'r Gymraeg fel pwnc.

## Cefndir

1. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddarparu cymorth ariannol o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 i hybu recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu. Sefydlwyd Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory 2019 ("y Cynllun hwn") drwy arfer y pwerau hynny.
2. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2019 ac mae'n berthnasol i Gymru.
3. Gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y Cynllun hwn o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 i gynorthwyo myfyrwyr a darparwyr achrededig sy'n arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Cynllun hwn.
4. Mae'r ddogfen hon yn ceisio nodi amlinelliad byr o sut y bydd y cynllun hwn yn gweithredu a dibenion talu'r grant.

## Crynodeb o'r Cynllun

5. Mae'r Cynllun hwn yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau i fyfyrwyr ôl-raddedig uwchradd AGA, sy'n astudio eu rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Gymraeg fel pwnc.
6. Bydd taliadau ar ffurf dau randaliad i unigolion cymwys ar ôl iddynt gwblhau cwrs uwchradd ôl-raddedig AGA yng Nghymru â SAC drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y rhaglen yn galluogi'r person cymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Gellir hawlio'r taliad cyntaf unwaith y bydd y statws SAC wedi'i dyfarnu. Gellir hawlio'r taliad pellach ar ôl cwblhau yn llwyddiannus y cyfnod sefydlu mewn ysgol uwchradd Gymraeg neu ddwyieithog a gynhelir, neu addysgu Cymraeg mewn unrhyw sefydliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

## Dehongli

7. Ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y Cynllun:-

ystyr "rhaglen hyfforddi athrawon ôl-raddedig achredig" yw rhaglen sydd wedi'i hachredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg<sup>1</sup> a sefydlwyd yn unol â rheoliad 5 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon)(Cymru) 2017;

ystyr "cyflogedig" ("*employed*") yw wedi'i gyflogi o dan gontract cyflogaeth neu wedi'i gyflogi i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd arall heblaw o dan gontract cyflogaeth a dylid dehongli "cyflogaeth" ("*employment*") yn unol â hynny;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a wneir o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 neu o dan unrhyw gynllun diwygiedig neu gynllun newydd a gyflwynwyd;

mae i "statws athro cymwysedig neu statws athrawes gymwysedig" yr ystyr a roddir i "qualified teacher" gan adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002: sef "a person who satisfies requirements specified in regulations"<sup>2</sup> wnaed o dan adran 132 o'r Ddeddf honno o dro i dro.

ystyr "dwyieithog" ("*bilingual*") yw Cymraeg/Saesneg ar gyfer darparwyr yng Nghymru.

ystyr "rhaglenni cymwys" ("*eligible programmes*") yw rhaglen sydd:

(a) yn rhaglen addysg gychwynnol athrawon ôl-raddedig amser llawn, rhan-amser neu hyblyg sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig sy'n cael ei achredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg, ac

(b) yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- yn arwain at dystysgrif ffurfiol ar gyfer addysg Gymraeg neu ddwyieithog;
- nad yw'n arwain at dystysgrif ffurfiol ar gyfer addysg Gymraeg neu ddwyieithog ond sydd wedi'i gynllunio i alluogi myfyriwr i addysgu'n ddwyieithog;
- yn ofynnol lle mae'r hyfforddai i astudio a chyflawni'r modiwl astudiaethau proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg fel y cofnodwyd yng Nghofnod Myfyriwr HESA.<sup>3</sup>

ystyr "myfyriwr cymwys" ("*eligible student*") yw myfyriwr â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

---

<sup>1</sup> Cyfeiriwyd at hyn yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017 fel Pwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

<sup>2</sup> Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, O.S. 2012/724 (Cy. 96)

<sup>3</sup> Mae hyn yn cyfeirio at fodiwl 'MODSBJ' a'r dynodydd HCA dwyieithog 'BITTM' yng nghofnod myfyriwr HESA

ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs hwnnw<sup>4</sup>;

ystyr "cwrw hyblyg" ("flexible course") bod hyd a phatrwm y cwrs yn dibynnu ar brofiad a hyfforddiant, y myfyriwr;

ystyr "lleoliad ymsefydlu" ("*induction setting*"), at ddibenion y Cynllun hwn, yw ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru. Mae ysgolion annibynnol wedi'u cynnwys ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf penodedig o dan Reoliad 7, paragraff 3 o Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) 2015; a

ystyr "ffurflen hawlio berthnasol" ("*relevant claim form*") yw ffurflen y mae Gweinidogion Cymru'n gofyn i ymgeisydd ei llenwi o bryd i'w gilydd er mwyn gwneud cais am grant o dan y cynllun hwn.

### **Grantiau cymell**

8. Caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau i unigolion sy'n gymwys i gael grantiau o'r fath o dan y Cynllun hwn o dan y paragraff hwn ("grantiau hyfforddi") ar ffurf cymhellion i unigolion sy'n bodloni gofynion paragraff 10.
9. Mae'r grantiau a roddir o dan y Cynllun hwn yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir ym mharagraffau 13 i 15.

### **Pwy sy'n gymwys i gael grantiau hyfforddi**

10. I fod yn gymwys i gael grant hyfforddi, rhaid i unigolyn:-

- (a) fod wedi dilyn rhaglen gymwys yng Nghymru a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020. Rhaglen gymwys yw rhaglen sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig ac sy'n galluogi'r person cymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc;
- (b) fod yn fyfyrwr cymwys;
- (c) heb fod wedi cymhwyso fel athro neu athrawes eisoes;
- (d) heb fod wedi ei gyflogi i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro neu athrawes;
- (e) heb fod wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan unrhyw gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth;
- (f) fod wedi cwblhau rhaglen gymwys yn llwyddiannus ac ennill Statws Athro Cymwysedig yn unol â Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 sydd mewn grym ar y pryd, a;
- (g) bod wedi cwblhau cyfnod sefydlu'n llwyddiannus o fewn tair blynedd ar ôl ennill Statws Athro Cymwysedig mewn un o'r lleoliadau sefydlu canlynol: ysgol uwchradd Gymraeg neu ddwyieithog a gynhelir neu addysgu Cymraeg mewn

---

<sup>4</sup> Y Rheoliadau sydd, ar hyn o bryd, yn berthnasol i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n ymestyn o 1 Medi 2019 i 31 Awst 2020 yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyriwr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018 Rhif 191 (Cy. 42)). Bydd y Rheoliadau hyn mewn grym am y flwyddyn academaidd 2019/20.

unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol (Cymru) 2015.

11. Os yw'n bodloni'r meini prawf a ddisgrifir ym mharagraff 10, i hawlio'r grant hyfforddi rhaid i'r unigolyn:

- (a) gyflwyno'r ffurflen hawlio berthnasol i Lywodraeth Cymru o fewn blwyddyn i ennill statws athro cymwysedig;
- (b) gyflwyno'r ffurflen hawlio berthnasol i Lywodraeth Cymru o fewn blwyddyn i gwblhau cyfnod ymsefydlu;

12. Mae unigolion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun cymhelliant hwn hefyd yn gymwys i hawlio cymhellion eraill ar gyfer hyfforddiant athrawon<sup>5</sup> ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf cymhwysedd y cynlluniau hynny yn y flwyddyn academaidd berthnasol.

### **Amodau**

13. Ni thelir grant i unigolyn o dan baragraffau 8 a 9 oni fydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ym mha bynnag ffurf, ar ba bynnag adeg a chan gynnwys pa bynnag fanylion y caiff Gweinidogion Cymru eu penderfynu.

14. Caiff Gweinidogion Cymru yn ôl eu disgrisiwn beidio â thalu grant hyfforddi i unigolion a gafodd eu derbyn ar raglen gymwys wedi i'r cwrs hwnnw gyrraedd y targed derbyn ar ei gyfer (fel y nodwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg).

15. Caiff Gweinidogion Cymru fynnu bod rhan neu gyfan o unrhyw grant a dalwyd o dan baragraff 8 yn cael ei ad-dalu:-

- (c) os yw'r derbynnydd, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol;
- (d) os oes tystiolaeth bendant nad oedd y derbynnydd erioed wedi bwriadu cwblhau'r cwrs, neu nad oedd, ar ôl ei gwblhau, erioed wedi bwriadu mynd i addysgu.

### **Talu'r grant**

16. Caiff grantiau o dan baragraffau 8 a 9 eu talu mewn dau ôl-daliad ac ar ba bynnag adegau a benderfynir gan Weinidogion Cymru, a chaiff Gweinidogion Cymru benderfynu bod y ddau randaliad yn cael eu talu erbyn dyddiadau penodol ar ôl i'r unigolyn gwblhau'r SAC a'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus.

### **Gweinyddu**


17. Llywodraeth Cymru fydd yn gweinyddu'r Cynllun. Bydd angen i hyfforddeion ddarparu tystiolaeth o SAC a chyfnod ymsefydlu pan fyddant yn cwblhau'r ffurflen hawlio berthnasol.

---

<sup>5</sup> Y cymhellion sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Addysg Gychwynol Athrawon yw [Llywodraeth Cymru | Cymhellion hyfforddi athrawon ar gyfer myfyrwyr TAR](#)

18. Rhaid cyflwyno ffurflenni i flwch post [ITEIncentives@llyw.cymru](mailto:ITEIncentives@llyw.cymru)

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

**Kirsty Williams AC**  
Y Gweinidog Addysg



## Atodiad B: Amserlen y broses a thaliadau

Medi 2019	<p>Cychwyn rhaglenni AGA ôl-radd uwchradd.</p> <p>Rhaid i ddarparwyr AGA sicrhau bod pob unigolyn cymwys yn cael copi o'r canllawiau uchod ac mewn digon o bryd i'w darllen cyn cyflwyno eu ffurflen hawlio gyntaf.</p>
Mawrth 2020	<p>Unigolion cymwys i ofyn i Lywodraeth Cymru am ffurflen manylion gwerthwr ac, wedi'i cwblhau, ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn <b>31 Mawrth 2020</b>.</p> <p>Caiff ffurflenni hawlio eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ynghyd â'r ffurflen manylion gwerthwr.</p>
Mehfin 2020	<p>Rhaid i ddarparwyr AGA roi rhestr o lofnodwyr awdurdodedig i Lywodraeth Cymru ar gyfer hawliadau SAC (blwyddyn academaidd 2019/20) erbyn <b>1 Mehefin 2020</b>.</p>
O fis Mehefin 2020	<p>Cyflwyno ffurflenni hawlio wedi'u cwblhau, i Lywodraeth Cymru, pan ddyfernir SAC.</p>
O fewn 3 blynedd i ddyfarnu SAC	<p>Cyflwyno'r ail ffurflen hawlio i Lywodraeth Cymru, pan gwblheir y cyfnod sefydlu yn llwyddiannus, yn un o'r lleoliadau sefydlu canlynol: ysgol gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir, neu'n addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.</p> <p>Rhaid cyflwyno ffurflenni hawlio wedi'u cwblhau o fewn blwyddyn i gwblhau cyfnod sefydlu yn llwyddiannus. Rhaid i'r ysgol sy'n cyflogi'r hawlydd gyflwyno'r ffurflen hawlio yn ddiogel drwy gyfrwng e-bost i Lywodraeth Cymru, ar ran yr hawlydd.</p>



### Hysbysiad Preifatrwydd - Llywodraeth Cymru Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory

Yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018, mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â gwybodaeth y mae'n ei derbyn sy'n ymwneud â Chynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory.

Bydd yr wybodaeth yn yr hysbysiad hwn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i gynnwys unrhyw newidiadau pellach y cawn wybod amdanynt gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

#### 1. Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu ystod eang o gynlluniau grant er mwyn helpu i weithredu ein polisiau a chreu Cymru sy'n decach ac yn fwy ffyniannus. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth am yr unigolion sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yng Nghymru.

Ar ôl cael yr wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y ffurflen gais, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r data.

#### 2. Pa wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael?

Mae'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu a'i chadw yn cynnwys:

- ✓ Rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi, megis:
  - Enw
  - Cyfeiriad
  - Cyfeiriad e-bost
  - Dyddiad geni
  - Manylion banc
  - Cwrs AGA a'i ddarparwr
  - Rhif Myfyriwr

#### 3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth?

Llywodraeth Cymru fydd y 'rheolwr data' ar gyfer unrhyw ddata personol yr ydych yn eu darparu mewn perthynas â'ch cais am grant/ hawliad neu wrth ofyn am gyllid grant.

Fel rhan o'i chylch gwaith fel rheolwr data, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gaiff at y dibenion isod. Mae'r prosesau hyn yn angenrheidiol ac yn unol ag

Erthygl 6(1)(e) GDPR lle mae angen prosesu gwybodaeth er mwyn cyflawni gorchwyl er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i reolwr y data:-

a. At ddibenion y Cynllun Cymhelliant:-

- ✓ I lywio a gwella polisiau mewn perthynas â rhaglenni ôl-raddedig AGA uwchradd a'r Gymraeg, ac i ddylanwadu arnynt
- ✓ I helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.

b. At ddibenion cyllido (er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i gael y Grant Hyfforddi a'n bod yn cael gwybodaeth gywir er mwyn gwneud taliad):-

- ✓ Bydd y data uchod yn cael eu defnyddio i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i gynnal gwiriadau at berwyl atal twyll a gwyngalchu arian.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i wirio eich hunaniaeth.
- ✓ Bydd y data'n cael eu defnyddio i helpu i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.

#### 4. Â phwy y mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth?

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth amdanoch a gedwir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei rhannu os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny neu'n cael ei rhannu â chyflenwr trydydd parti sydd wedi'i gontractio i weithredu ar ran Llywodraeth Cymru.

Yr Unigolion neu'r Sefydliadau y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw:

- ✓ Asiantaethau atal twyll

Ni fydd Llywodraeth Cymru ond yn darparu data at ddibenion penodol ac am gyfnod cyfyngedig. Rhaid i'r sefydliad gadarnhau ei fod wedi dinistrio'r data ar ôl y cyfnod cyfyngedig hwnnw.

#### 5. Am ba mor hir y byddwn yn cadw'r data hyn?

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth am hyd at 7 mlynedd ar ôl y dyddiad y bodlonwyd yr holl amodau sy'n berthnasol i'r grant ac y cafodd yr holl daliadau eu gwneud. Ar ôl y cyfnod hwnnw, bydd copïau caled o ddata'n cael eu torri'n ddarnau mân a chaiff data electronig eu dileu.

#### 6. Eich hawliau o dan GDPR

Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- ✓ Gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu prosesu amdanoch chi;
- ✓ Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- ✓ Gwrthod (o dan rai amgylchiadau) i'r data gael eu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi;

- ✓ Cyfyngu'r prosesu (o dan rai amgylchiadau);
- ✓ Cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael gwybod mwy am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, cysylltwch â Llywodraeth Cymru. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma'r manylion cyswllt:

	<b>Swyddog Diogelu Data:</b>	<b>Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth</b>
Cyfeiriad:	Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD, CF10 3NQ	Wycliffe House Water Lane Wilmslow Swydd Gaer / Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn:	0300 0604400	029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
Cyfeiriad e-bost / Gwefan:	Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru	www.ico.gov.uk